PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 155 | Rhif 45 | Tachwedd 10, 2022 | 50c.

## NOSON FAWR YNG NGHAPEL Y WIG

**Yr arwr bytholwyrdd Dafydd Iwan a chorau lleol fu'n diddanu'r gynulleidfa niferus mewn cyngerdd yng Nghapel y Wig, Blaencelyn, Ceredigion ganol mis Medi. Diben y cyngerdd oedd codi arian tuag at gynnal a chadw adeiladau'r Achos. Llywyddwyd y noson gan y gweinidog, y Parchg Carys Ann.**



Er bod ganddo gysylltiadau teuluol hynod agos â'r capel a'r fro hon, a'i fod wedi pregethu yn y capel yn y gorffennol, dyma oedd y tro cyntaf i Dafydd Iwan ganu yn yr addoldy hwn. Cyn dechrau'r cyngerdd, bu'n ffilmio yn y fro ar gyfer rhaglen ddogfen sy'n dilyn ei hynt o gwmpas Cymru a gaiff ei darlledu yn ystod yr hydref hwn. Bu'r cwmni teledu yn ei ffilmio yn ystod y cyngerdd hefyd gan ddal cyffro'r noson ar gof a chadw. Yn gynt yn yr wythnos, bu'n cyfansoddi cân gyda disgyblion rhai o ysgolion Sir Gâr. Canodd nifer o ganeuon o wahanol gyfnodau yn ystod ei yrfa gan egluro arwyddocâd a chyd-destun y geiriau. Cyfansoddodd Jon Meirion englyn ar gyfer yr achlysur:



Deil wefr o'r adail hyfryd, – yma'r hedd
A'r ymroddiad diwyd;
a'i foliant yn gafaelyd –
y mae hwyl – YMA O HYD.

### Côr ysgol yn cydganu â Dafydd

Y côr lleol cyntaf i ganu oedd Côr Ysgol Gynradd T. Llew Jones dan arweiniad Mrs Rhian Lloyd gyda Mrs Delyth Griffiths yn cyfeilio. Canodd y plant ddwy gân wrth eu hunain cyn ymuno â Dafydd Iwan i gydganu'r gân 'Mam wnaeth got i mi'. Yr oedd sain heintus a byrlymus y plant yn hyfryd a gwerthfawrogwyd eu cyfraniad yn fawr gan y gynulleidfa. Nid dyma oedd y tro cyntaf i'r ysgol gydganu gyda Dafydd Iwan am ei bod wedi bod yn rhan o weithgarwch daucanmlwyddiant Capel y Wig, gyda Dafydd yn bregethwr gwadd. Y mae hon yn flwyddyn fawr i'r ysgol am ei bod yn dathlu carreg filltir yn ddeng mlwydd oed. Cafwyd noson agored yno'n ddiweddar a dymunwn y gorau i'r ysgol yn y dyfodol.

### Côr buddugol y Genedlaethol

Yr ail gôr i berfformio yn y cyngerdd oedd côr meibion Ar Ôl Tri dan arweiniad Mr Emyr Davies a chyfeiliant Mrs Meinir Parry. Llongyfarchwyd y côr yn galonnog ar lwyddiant ysgubol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron eleni wrth iddynt ennill prif gystadleuaeth gorawl y corau meibion. O'r nodyn cyntaf oll, cafwyd canu grymus, deallus a disgybledig gyda'r gynulleidfa yn llwyr werthfawrogol o'u sain a'u dehongliad. Mae hon yn sain gyfoethog sydd wedi'i meithrin dros gyfnod o flynyddoedd sydd yn teilyngu ein hedmygedd a'n gwerthfawrogiad. Gorffennwyd rhaglen y côr yn briodol gyda threfniant poblogaidd Caradog Williams o eiriau Saunders Lewis 'Gwinllan a Roddwyd' gydag angerdd y canu yn adleisio trwy'r capel.

### Adfer hen gyfeillgarwch

Yn ystod yr egwyl, cafwyd anerchiad pwrpasol a diddorol gan gadeirydd y noson sef Mrs Hilary Williams o Benarth, gynt o Arnant ym phentre bach Penbontrhydyfoethau. Mae wedi dilyn

*parhad ar dudalen 2*



# Synod Cymru ein chwaer eglwys, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig

Ganol fis Hydref eleni roeddwn yn gynrychiolydd yr Undeb yn Synod yr URC yng Nghymru, un o'n partneriaid yn Cytûn ac yng Nghyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM). Eglwys fechan iawn ydyw yng Nghymru bellach, gyda 81 eglwys (14 ohonynt mewn partneriaeth ag eglwysi o enwadau eraill), tua 1,700 o aelodau ac, ar hyn o bryd, 13 gweinidog ac un weithwraig gymunedol eglwys-gysylltiedig. Ond er mai eglwys fechan ydyw, y mae'n cyflawni gwaith effeithiol iawn.

### Rôl amrywiol

Un o'r prif faterion a gyflwynwyd oedd adroddiad newydd gan y Synod ar 'Holl Bobl Dduw' gyda'r isdeitl, 'Galwad ac ymrwymiad i wasanaethu Duw'. Ymdrech sydd yma i ddisgrifio rôl amrywiol y rhai a elwir i wasanaeth Cristnogol fel gweinidogion, gweithwyr cymunedol, blaenoriaid neu weithwyr gyda phlant ac ieuenctid. Ceir yma gyfle i eglwysi ystyried sut mae natur galwad a gwasanaeth y cyfeillion hyn yn newid yn wyneb newidiadau yn hinsawdd ein heglwysi a'n cymunedau. Un o'r heriau canolog yn yr adroddiad yw'r angen am inni wrando ar ein gilydd (yn cynnwys gwrando ar ein plant a'n hieuenctid a dysgu ganddynt) er mwyn inni weld yn fwy eglur beth yw'n galwad fel eglwysi i'r dyfodol.

### Helpu gyda chostau ynni

Yn ystod yr adroddiad ar faterion ariannol, pwysleisiwyd mai adnoddau ar gyfer blaenoriaethau cenhadol yw'r cyllid sydd ar gael gan y Synod a'r eglwysi. Er mai Synod Cymru yw'r tlotaf o bell ffordd ymhlith y 12 Synod sydd gan yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, nodwyd y byddai'r Synod yn barod i helpu eglwysi sydd yn ei chael yn anodd talu costau cynyddol ynni ar gyfer gwresogi a goleuo adeiladau, drwy roddion hyd ar £2,500 (neu 50% o'u costau ynni) i eglwysi yn ystod yr argyfwng presennol. Adroddwyd hefyd fod y Synod wedi cytuno i helpu eglwysi sydd am fod yn rhan o'r cynllun Mannau Cynnes a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill i gynnig lle cynnes i bobl leol nad oeddent yn medru fforddio costau gwresogi eu cartrefi bellach. Neilltuwyd £1m o bunnoedd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda'r cynllun hwn.

### Eco-gyfeillion

Awgrym diddorol arall oedd bod pob eglwys yn ystyried penodi Eco-gyfeillion, sef, pobl o'u plith fyddai'n medru rhoi blaenoriaeth i'r her genhadol ac ymarferol y mae problemau amgylcheddol yn eu gosod i eglwysi lleol. Gallent gadw mewn cysylltiad â phobl debyg mewn eglwysi eraill, cadw'r her amgylcheddol yn gyson gerbron eu heglwysi, creu tîm o bobl leol fyddai'n medru cydweithio ar y materion hyn, hybu'r nod o fod yn eco-eglwysi, lleihau ôl-troed carbon yr eglwys a rhoi'r lle priodol i'r pynciau hyn mewn addoliad. Ydy hyn yn rhywbeth y gallai eglwysi Annibynnol ei ystyried?

### Rhyfel hir Corea

Cytunwyd hefyd fod Llywydd y Synod, Simon Walkling, yn llofnodi, ar ran y Synod, benderfyniad yn cefnogi'r alwad fyd-eang am heddwch ym Mhenrhyn Corea, sy'n cynnwys galwad am ddod â'r rhyfel a gychwynnwyd yn y 1950au i ben yn swyddogol a phwyso ar ein llywodraeth ni a gwledydd eraill y byd i sefyll gyda'n chwiorydd a'n brodyr yng Nghorea i weithredu dros heddwch a chymod rhwng Gogledd a De Corea.

### Cariad a Gofal

Cawsom ein hatgoffa hefyd o bwysigrwydd parhaol Diogelu Plant, Ieuenctid a Phobl Fregus. Disgwylir, fel yn achos enwadau eraill, fod y sawl sy'n gweithio gyda phlant ac ieuenctid, blaenoriaid a gwirfoddolwyr eraill sy'n dod i gysylltiad â rhai bregus, yn derbyn hyfforddiant priodol ac yn datgelu unrhyw ddigwyddiadau perthnasol yn eu gorffennol. Mae'r URC yng Nghymru'n trefnu cyfres o ddyddiau hyfforddi ar draws y wlad ar gyfer yr eglwysi. Gwelir bod sicrhau mai mannau diogel o gariad a gofal yw eglwysi yn flaenoriaeth genhadol inni.

Fel y gwelwch, am Synod bychan, mae'n cyflawni gwaith mawr a phwysig. Roedd yn fraint i mi gael bod yno unwaith eto a dysgu am agweddau ar ein tystiolaeth Gristnogol yng Nghymru y gall pawb ohonom elwa arnynt. Dymunwn yn dda i'n chwaer eglwysi diwygiedig i'r dyfodol.

**Noel Davies**

*The* **United Reformed Church**
**National Synod of Wales**
*Yr* **Eglwys Ddiwygiedig Unedig**
**Synod Cenedlaethol Cymru**

# NOSON FAWR YNG NGHAPEL Y WIG – parhad

gyrfa lwyddiannus ym myd y gyfraith a chafwyd crynodeb o'i gwaith a'i harbenigedd yn ei maes. Teg yw dweud bod achlysur o'r math hwn yn aml yn fodd i adfer hen gyfeillgarwch a chafwyd llawer i sgwrs ddiddan ymhlith cyfeillion oes ar ddiwedd y cyngerdd. Gwerthfawrogwn yn fawr gyfraniad hael ein cadeirydd tuag at goffrau'r achos. Mae hi wedi bod yn gyfaill cyson a ffyddlon i'r capel dros y blynyddoedd ac yn barod iawn ei chymwynas a'i chefnogaeth unrhyw adeg.

### Lluniaeth a diolch

Ar ddiwedd y noson, cafwyd lluniaeth a the yn y festri dan ofal Mair ac Orwig Davies a gweddill aelodau'r capel.

Diolchwn i bawb a fu yn rhan o'r paratoadau hynny. Yn wir, does dim gwell ffordd o roi'r byd yn ei le a hel atgofion na thros ddisgled o de. Dymuna'r gweinidog ynghyd â swyddogion ac aelodau'r capel ddiolch o waelod calon i bawb a gefnogodd y noson lwyddiannus hon ym mhob ffordd bosibl. Mae sawl ffordd o fesur llwyddiant a bu'r cyngerdd hwn yn llwyddiant aruthrol mewn mwy nag un ffordd wrth i'r gymuned ddod at ei gilydd er mwyn atgyfnerthu'r gymdeithas. Mae hi'n frwydr gyson i gynnal a chadw adeiladau unrhyw gapel ond teimlwn ein bod, yng Nghapel y Wig, dipyn yn nes at y lan erbyn hyn er mwyn cael y maen i'r wal. DIOLCH O GALON I BAWB.

Yr Adran Gydenwadol

TACHWEDD 10 2022 RHIF 89

# Cymanfa Cyngor Eglwysi’r Byd yn trafod newid hinsawdd

**Fe fydd cynrychiolaeth o Gyngor Eglwysi’r Byd yn cynnwys eglwysi sy’n aelodau a mudiadau partner yn mynychu uwchgynhadledd COP 27 yn yr Aifft er mwyn codi lleisiau, profiadau a safbwyntiau’r rheiny sy’n cael eu heffeithio fwyaf gan newid hinsawdd.**

Wrth adrodd yn ôl o Gymanfa Cyngor Eglwysi’r Byd, fe wnes i gychwyn drwy ganolbwyntio ar yr addoliad fel sylfaen a chalon y Gymanfa: yn y Babell Weddi roedd pawb ohonom yn dod at ein gilydd i gyd-ddyheu a gweddïo.

Roedd llawer o’r cyfarfod hefyd yn digwydd mewn grwpiau bach: tua 20–30 o bobl yn trafod prif faterion y Gymanfa, yn ymateb i waith y pwyllgorau canolog oedd wedi gwneud llawer o’r ymchwil a’r rhagbaratoi, a bwydo ’nôl i lywio a chyfeirio gwaith Cyngor Eglwysi’r Byd dros y cyfnod nesaf. Un o’r prif faterion dan sylw, wrth gwrs, oedd Newid Hinsawdd ac roedd y grŵp bach yr oeddwn i’n rhan ohono’n canolbwyntio ar yr agwedd honno ac ar ddŵr yn arbennig.

Yn ein cyfarfod cyntaf fe’n rhannwyd i drafod mewn grwpiau llai yn ôl daearyddiaeth y byd: y rhai o wledydd Affrica i drafod efo’i gilydd, De a Chanolbarth America mewn grŵp arall, a ninnau, bobl Ewrop, efo’n gilydd. Roeddwn i’n reit siomedig, gan fy mod wedi gobeithio cael bod mewn grŵp mwy amrywiol i glywed neges y gwledydd eraill. Ond mi wnes i ufuddhau ac ymuno efo’r criw o eglwysi lled gyfoethog y Gorllewin. Roedd ein trafodaeth yn debyg iawn i’r hyn yr oeddwn wedi ei ddisgwyl: mynegi rhwystredigaeth am ein harafwch ein hunain i newid, siarad yn ddamcaniaethol am yr hyn oedd angen ei wneud, rhannu ambell syniad ymarferol o arfer da – ond dim byd oedd, nac sydd, yn debyg o newid y byd!

Pan ddaeth pawb yn ôl at ei gilydd daeth y gwahaniaethau mawr i’r amlwg, ac mi roeddwn yn falch ein bod wedi cael ein rhannu’n ddaearyddol. Roedd profiad y rhanbarthau eraill mor wahanol i ni; er eu bod hwythau hefyd yn profi’r un rhwystredigaeth am arafwch llywodraethau i symud, roedd gwledydd Affrica’n sôn am y sychder ac anwadalwch y glaw. Soniodd un wraig




Llun: Gjermund Øystese/WCC

2 Medi 2022, Karlsruhe, Germany: Protest hinsawdd yn yr 11eg Cynulliad o Gyngor Eglwysi’r Byd gynhaliwyd yn Karlsruhe, yr Almaen, rhwng 31 Awst a 8 Medi, yn dilyn y thema “Cariad Crist yn Cymell y Byd i Gymod ac Undod”

o Benin am bwysigrwydd dŵr yn eu diwylliant, am yr arfer o osod powlen o ddŵr o flaen drws pob cartref fel adnodd i’w rannu ag unrhyw un sy’n sychedig wrth basio heibio. Erbyn hyn, mae dŵr wedi cael ei breifateiddio yn Benin a’r gost y tu hwnt i allu pobl i gadw’r arfer diwylliannol croesawgar hwn. Galwodd arnom i ailfeddwl am y syniad o ganiatáu i gwmnïau mawr wneud elw o adnodd naturiol mor sylfaenol (a finna’r un pryd yn teimlo’n anghyfforddus iawn o feddwl am yr ymgyrch yma i sicrhau bod Cymru’n elwa o’r dŵr sy’n cael ei gludo dros y ffin i Loegr!).

Clywsom gan bobl ynysoedd y Môr Tawel am lefelau’r môr yn codi, am gryfder aruthrol stormydd trofannol a chorwyntoedd erbyn hyn, a’r broblem gynyddol o ddŵr hallt yn gorlifo i’r ffynhonnau dŵr croyw, y colli tir, y cwestiwn mawr a real - ‘lle awn ni?’

Roedd pobl De a Chanolbarth America yn sôn am ddylanwad a grym y cwmnïau rhyngwladol sy’n rheibio’r fforestydd, yn dadwreiddio cymunedau cynhenid gan ladd eu diwylliant a’u ffordd o fyw, yn bygwth trais ac yn peri cymaint o ddioddefaint.

Pobl ar reng flaen y frwydr yn wynebu’r pwerau rydym ni a’n ffordd gysurus o fyw wedi eu creu ac yn eu cynnal drwy ein dewisiadau dyddiol – a ninnau’n dal i ddamcaniaethu gan drafod y broblem fel un haniaethol a syniadol er mwyn osgoi’r gwir oblygiadau i’n ffordd o feddwl ac o fyw.

Un o’r prif negeseuon erbyn diwedd ein trafodaethau fel grŵp oedd yr angen i ni, yn arbennig yn eglwysi’r Gorllewin, i ailfeddwl ac ailddarganfod diwinyddiaeth y greadigaeth fydd yn ein galluogi fel eglwysi i ddeall o’r newydd ein perthynas â Duw’r Creawdwr.

Mae datganiad Cyngor Eglwysi’r Byd ar ddiwedd ein Cymanfa’n alwad glir arnom i ymateb yn gyflym gan droi at ffynonellau adnewyddadwy ynni ynghyd â nifer o ymatebion ymarferol posibl eraill, gyda’r rhai cyfoethocaf yn arwain ac yn sicrhau cefnogaeth ariannol i gynnal y rhai â llai o adnoddau, a digolledu’r rhai sy’n wynebu colledion a bygythiadau. Gellwch ddarllen y datganiad yma dan y teitl: Y Blaned Fyw: Ceisio Cymdeithas Fyd-eang Gyfiawn a Chynaliadwy.

Un o heriau mwyaf cofiadwy Ymgyrch Newid Hinsawdd Cymorth Cristnogol dros y blynyddoedd diwethaf yma (yn fy marn i) ydi: ‘Put your money where your prayers are’. Ble mae ein buddsoddiadau/pensiynau ni? Pa gwmni sy’n cyflenwi ein trydan ni (fel eglwysi neu unigolion; Ecotricity ydi un o’r rhai sy’n buddsoddi fwyaf mewn ynni adnewyddadwy yma ym Mhrydain)? Ble ydan ni’n siopa a pha mor bell mae’r bwyd rydan ni’n ei fwyta wedi dod?

*Anna Jane Evans*

# Cymod yn achosi tramgwydd

Os gallwch chi weld y darlun sy'n cael ei ddangos ar y dudalen hon – un o ddau filwr yn cofleidio, yna fe allwch weld yr hyn a achosodd dramgwydd mawr i lysgennad Wcráin a'r gymuned Wcreinaidd yn Melbourne ym mis Medi pan gafodd ei beintio ar wal wag yno.

Cymaint mae pobl wedi dioddef yn Wcráin oddi wrth effeithiau'r rhyfel – yn drawma, yn galedi, yn ddinistr ac yn golled a galar – fel na allan nhw ddychmygu dau filwr o'r byddinoedd sy'n rhyfela yn erbyn ei gilydd yn cofleidio. Nid cofleidio y mae milwyr i fod i'w wneud, ond ennill buddugoliaethau a lladd eu gwrthwynebwyr. Roedd y ddelwedd yn un broblematig gan ei bod yn awgrymu bod y ddwy ochr yn gyfartal â'i gilydd ac yn rhydd i osod eu harfau i lawr.

Achosodd cymaint o dramgwydd nes y bu'n rhaid i'r darlun gael ei guddio a'i ddileu. Mae'r artist, Peter Seaton, sy'n cael ei adnabod dan yr enw 'CTO', wedi ymddiheuro'n llaes i'r gymuned Wcreinaidd yn Melbourne gan ddweud nad oedd yn fwriad ganddo'u tramgwyddo, ond yn hytrach hybu heddwch. Er hynny, fe roddodd bob hawl i ddosbarthu'r ddelwedd mor eang â phosibl, ar fyrddau hysbysebu ac wedi ei thaflunio ar adeiladau eraill etc, gyda'r mudiad heddwch World Beyond War yn mynd yn gyfrifol am hynny: https://worldbeyondwar.org/.

Beth fyddai ein ymateb ni i ddarlun o'r fath, tybed, pe byddem yn ein cael ein hunain yn yr un sefyllfa – wedi dioddef fel y mae trigolion Wcráin wedi ei wneud yn ystod y naw mis diwethaf neu wewyr y rhai sy'n gofod ildio i'r alwad i ymuno â'r fyddin yn Rwsia? A fyddai'r darlun yn dramgwydd i ninnau hefyd? Trafodwch! – fel y byddem yn ei ddweud yn y dosbarth ysgol Sul.

Er anodded yw dychmygu cymod rhwng y ddwy ochr, fe fydd yn raid iddi ddod i hynny rywbryd, a gorau po gyntaf y digwydd hynny. Gweddïwch felly dros y cymod hwnnw fydd yn gorfod digwydd rhwng rhai sydd wedi bod yn elynion. Gweddïwch am y gras mawr fydd ei angen i fyw eto ac i faddau yn wyneb yr elyniaeth a'r colledion a gafwyd.

Ein cofleidio â gras a chariad, cyfiawnder a heddwch a wna Duw, yn ôl Salm 85 ac emyn mawr Gwilym Hiraethog, 'Dyma gariad fel y moroedd', sy'n sôn am 'ras a chariad ... / yn ymdywallt yma 'nghyd, / a chyfiawnder pur a heddwch / yn cusanu euog fyd' (*Caneuon Ffydd*, rhif 205). Mae'n ein cofleidio, er mor anhyfryd ac annheilwng o ras a maddeuant yr ydym. Tra oeddem ni'n dal yn elynion i Dduw, estynnodd ei faddeuant inni yng Nghrist. Ef wnaeth y cam cyntaf tuag atom ni, yn dod atom yng Nghrist, yn dangos ei oleuni nefol inni ond yn dioddef ar y groes dan law rhai oedd yn elyniaethus iddo. 'Trwy'r groes; trwyddi hi fe laddodd yr elyniaeth,' medd y Gair wrthym (Effesiaid 2:16). Ac os yw hi'n bosibl i Dduw faddau'r fath elyniaeth drwy aberth Iesu Grist, yna mae hi'n bosibl i ninnau gael gras i garu ein gelynion hefyd, a meddwl am y posibilrwydd o filwyr yn cofleidio'i gilydd.

Ni fyddwn yn dymuno gwneud yn fach o unrhyw droseddu sydd wedi digwydd. Mae angen cosbi troseddwyr, ond eto dim ond maddeuant sy'n rhyddhau'r troseddwr a'r rhai y troseddwyd yn eu herbyn oddi wrth y cylch hwnnw o ddialedd sy'n golygu bod y dicter yn dal i gael ei ddial yn erbyn y troseddwr. Mentrwn gredu mai Iesu yn unig all ryddhau rhag y fath ddicter a dialedd, a chymodi gelynion â'i gilydd trwy'r cymod a wnaeth ef ac a ddangosodd ef tuag at bawb ohonom ar y groes.



Llun: gyda chydnabyddiaeth i'r artist, Peter 'CTO' Seaton.

Beth sydd ei angen yn fwy ar ein byd heddiw na heddwch a chymod? Beth felly sy'n fwy ymarferol na'r Newyddion Da fod Duw wedi cymodi'r byd ag ef ei hun yn aberth Iesu Grist drosom? Dyma Efengyl fendigedig sy'n gallu cofleidio pawb ohonom – ymhell ac agos. Credwn ynddi ac ymrown i'w rhannu ac i weddïo dros ei lledaeniad.

Fe fydd hi'n Sul y Cofio arnom y Sul hwn, a bydd llawer yn casglu ynghyd i gofio'r milwyr a gollodd eu bywydau yn rhyfeloedd yr 20fed ganrif. Gyda dyhead am wir heddwch y codwyd y cofebau hyn gan drigolion ein broydd ganrif a mwy yn ôl. Mae'r un dyhead i'w gael o hyd, a'r gwaith o wneud gwir heddwch ac o geisio cymod yn wyneb amgylchiadau rhyfelgar ein byd yn parhau bob dydd – peidiwn â blino bod ynglŷn ag ef.

'Meddyliwch amdano ef, a oddefodd y fath elyniaeth ato'i hun gan bechaduriaid, rhag i chwi flino na digalonni.' (Hebreaid 12:3)

*HP-D*


## Symposiwm rhithiol i nodi 400 mlwyddiant geni Stephen Hughes ('Apostol Sir Gaerfyrddin')

Cyfres o ddarlithoedd yn trafod addysgu'r werin yn y cyfnod modern cynnar gan ganolbwyntio ar addysgwyr o sir Gaerfyrddin. Trefnir gan Gyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**9 Tachwedd am 5 o'r gloch**
**Yr Athro Geraint H. Jenkins**
**'Griffith Jones, Llanddowror, addysgwr a gyflawnodd wyrthiau'**
Pan gynhaliwyd pôl piniwn rai blynyddoedd yn ôl yn gofyn i'r cyhoedd enwebu arwyr Cymru, nid ymddangosodd enw Griffith Jones, Llanddowror, ymhlith y can enw cyntaf. Fe'i bwriwyd o'r neilltu gan enwogion fel Tommy Cooper, Phil Campbell a Cerys Matthews, er bod ei gamp fel addysgwr o Gymro ac fel diwygiwr crefyddol yn gwbl eithriadol. Mae'n amlwg bod angen mwy o PR arno a dyna a geir yn y sgwrs hon.
Archebu tocyn:
https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/t-avaoorm

**16 Tachwedd am 5 o'r gloch**
**Dr Eryn M. White**
**'Madam Bevan ac Addysg y Werin'**
Bridget Bevan (1698–1779) a fu'n gyfrifol am gynnal yr ysgolion cylchynol yng Nghymru dros gyfnod o ddeunaw mlynedd o 1761 tan ei marwolaeth ym 1779. Yn y ddarlith hon, byddwn yn ystyried ei chymhellion a'i chyfraniad at yr ymgyrchoedd mawr i geisio addysgu pobl Cymru.
Archebu tocyn:
https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/t-xmdjjpp

**ADNABOD**




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.**

## 7 Cychwyn y daith

**Darllen: Actau 7:1–6**

Fel y nodais rai wythnosau yn ôl, cyn inni ddod at hanes galw Abraham ym mhennod 12, mae'n amlwg fod y teulu eisoes wedi cychwyn ar y daith yr oedd Duw wedi bwriadu iddynt ei chymryd. Mae adnodau olaf pennod 11 yn priodoli cychwyn y daith i Tera, tad Abraham, nid yn gymaint gan mai ef gafodd y galwad, ond byddai'n amhriodol cyfeirio at alwad Abraham fel mab o fewn cymdeithas batriarchaidd. Mae'r Beibl felly'n nodi mai Tera gymerodd ei fab a'i ŵyr i gychwyn o Ur, er mai galwad i Abraham oedd hwn, fel y gwelwch o'r adnodau yn Llyfr yr Actau.

Fel yn achos pob taith, er mwyn cyrraedd rhywle, rhaid ichi adael rhywle. Wrth i Abraham a'i deulu adael Ur, cawn thema fydd yn gyson drwy'r Beibl, thema sy'n pwysleisio'r ffaith fod pobl yr Arglwydd yn bobl ar daith, ar daith o le arbennig i le arbennig. Yn achos Abraham a'i deulu, roeddent i adael Ur y Caldeaid, a symud i Ganaan. Nid yw pawb yn gytûn ai lle penodol oedd yr Ur hwn, gan mai ystyr y gair yw 'tir', ond yn sicr gellir lleoli'r ardal – gwlad y Caldeaid. Os oedd yn ddinas, ceir awgrym mai dinas ar lan afon Ewffrates oedd hi, tua 150 o filltiroedd i'r gogledd o Gwlff Persia. Beth bynnag am yr union le, roedd Caldea yn yr ardal a elwir y Cilgant Ffrwythlon, yn ymestyn o Gwlff Persia i'r gogledd-orllewin i ardal dinas Babilon. Bu'r Caldeaid yn rheoli Babilon am gyfnod, ond nid yw union ffiniau eu tiriogaeth yn glir.

Pwynt y stori yw bod Duw wedi galw Abraham allan o ardal o wareiddiad a ffyniant. Roedd Ur y Caldeaid yn lle oedd â digonedd o ddŵr a thir pori, ac roedd yn ardal oedd wedi ei chyfoethogi gan batrymau masnach y cyfnod. Mewn geiriau eraill, dyma oedd "y lle" i fod. Galwodd Duw ef o'r lle cyffyrddus hwn i le oedd yn ddieithr iddo. Mae'n debyg y byddai Abraham wedi cael amser caled yn dychmygu unrhyw le fyddai'n well na'r man lle yr oedd eisoes. Ond credodd Abraham addewidion Duw, ac fe gyfrifodd Duw y ffydd honno iddo fel cyfiawnder (Genesis 15:6; Rhufeiniaid 4:3). Mae hanes yn llawn o arloeswyr sydd wedi gadael gwareiddiad i geisio bywyd gwell, ond fel arfer mae'r bobl hyn wedi bod mewn sefyllfa enbyd, yn ysu am rywbeth gwell. Gadawsant sefyllfa ddrwg gan wybod, er y byddai peryglon a chaledi, y gallent gael rhywbeth gwell yn y diwedd. Mae'n ymddangos bod sefyllfa Abraham i'r gwrthwyneb. Roedd yn byw mewn gwareiddiad llewyrchus, ac mae'n debygol fod cryn lewyrch ar fywyd ei deulu. Cerddodd i ffwrdd oddi wrth y cyfan, gan ymddiried yn syml fod Duw yn mynd i roi rhywbeth gwell iddo, er y byddai'n ddieithryn mewn gwlad ddieithr ac na fyddai'n gweld cyflawni addewidion Duw yn ei oes.

Peth arall sy'n cael ei bwysleisio yn hanes dechrau'r daith yw fod ei wraig Sarai (Sarah yn ddiweddarach), 'yn ddi-blant, heb eni plentyn'. Fel y nodais yr wythnos diwethaf, mae'r teulu yn ganolog i fywyd y patriarchiaid. Nid Sarah fyddai'r gyntaf yn y Beibl i weld Duw yn bendithio gwraig oedd heb eni, neu wedi methu geni, plant. Wedi dweud hynny, mae Abraham, fel eraill ar ei ôl, yn cael trafferth i gredu'r addewid, ac yn mynd i helynt yn ceisio atebion eu hunain i'r hyn y mae Duw yn ei addo. Mae galwad ar i Abraham adael ei wlad a meddiannu gwlad newydd ag addewidion arbennig, er bod y posibiliadau o weld yr addewidion hynny'n cael eu gwireddu i bob golwg yn amhosibl, ac mae Abraham yn ceisio 'helpu' i wireddu'r addewid. Ond, mae'r ddau beth yma – gadael gwlad lewyrchus a chyffyrddus a gadael ar bwys addewid o etifeddiaeth ac enw – yn cyfuno i osod cywair sydd eto'n llinyn arian drwy'r Beibl. Mae pobl Dduw i fynd gyda golwg ar allu goruwchnaturiol Duw yn hytrach nag amgylchiadau naturiol ffafriol. Mae Abraham yn codi a mynd ar alwad Duw, ufudd-dod ffydd sy'n cael ei gymeradwyo, ond, fel yn hanes holl pobl Dduw ym mhob cenhedlaeth, gydag ufudd-dod mewn un cyfeiriad, yn aml ceir anufudd-dod yn gymysg. Dyna yw byw – mae yna greadigaeth newydd yng Nghrist sy'n credu, tra bo'r hen fi yn dal i lercian yn y cefndir, eisiau cael ei le yn ôl.

O ran cychwyn y daith felly, rydym yn rhannu yr un galwad ag Abraham. Mae'n alwad i adael, gadael lle cyfyng ambell waith, ond gall olygu gadael lle cyffyrddus hefyd. Ceir cyfeiriad at Moses, wedi iddo dyfu i fyny, yn gwrthod cael ei alw yn fab i ferch Pharo, 'gan ddewis goddef adfyd gyda phobl Dduw yn hytrach na chael mwynhad pechod dros dro, a chan ystyried gwaradwydd yr Eneiniog yn gyfoeth mwy na thrysorau'r Aifft, oherwydd yr oedd ei olwg ar y wobr' (Hebreaid 11:24–6).

1. Yn Efengyl Mathew 4:18–25 ceir hanes pobl yn cael eu galw i ddechrau'r daith gyda Iesu. Ble cychwynnodd y daith i chi?
2. Gwelwn Abraham yn gadael lle cyfforddus i fynd i le anghyfarwydd. Beth fu raid i chi ei adael, a beth sydd angen i chi adael ar hyn o bryd ar y daith yma?
3. Beth sy'n ei gwneud yn anodd i chi ymddiried yn addewidion Duw? Oes yna bethau yr ydych chi wedi eu gwneud i geisio torri corneli, neu sylweddoli rhywbeth priodol mewn ffordd amhriodol?

**S4C**

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 13 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp**
Catrin Hughes yn cyflwyno detholiad o emynau o Gymanfa Gorllewin Myrddin a gynhaliwyd yng Nghapel Hermon, Cynwyl Elfed

**Sul, 13 Tachwedd, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Ieuan Elfryn Jones, Caergybi

**BBC radio cymru**

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 13 Tachwedd am 7.30yh**
Ar Sul y Cofio byddwn yn cofio'r rhai a gollodd eu bywydau yn 1982, yn Rhyfel y Falklands. Eilir Owen Griffiths fydd yn arwain y canu mawl a chawn berfformiad arbennig gan Catrin Finch a Rhys Taylor o gerddoriaeth dangnefeddus Handel

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

## Colofn Cerdd a Mawl

# LINK WRAY

Bu farw Fred Lincoln 'Link' Wray Jr ar 5 Tachwedd, 2005 yn un o gewri'r byd roc sydd heb gael y clod y mae'n ei haeddu. Cafodd ei eni yn Dunn, Gogledd Carolina ar 2 Mai, 1929 yn fab i rieni o dras Shawnee oedd yn pregethu nid mewn capel nac eglwys ond ar y priffyrdd a'r ffriddoedd mewn 'bush meetings'. O ddyddiau ei ieuenctid, roedd cerddoriaeth yn y tŷ a ffurfiodd y band Lucky Wray and the Palomino Ranch Hands gyda'i frodyr Doug a Vernon.

Roedd ei fagwraeth yn un arw gyda bygythiadau'r Klu Klux Klan yn brofiadau dyddiol a bu bron i ni ei golli o'r dicáu yn dilyn ei gyfnod yn y fyddin (1950–3) yn ystod rhyfel Corea. Bryd hynny treuliodd flwyddyn mewn ysbyty gyda rhan o'r cyfnod hwnnw wedi ei ynysu ac fe gollodd un ysgyfaint. O ganlyniad datganodd y meddygon na fyddai'n gallu canu byth eto!



### Rumble

Ac eto, o fewn blwyddyn roedd wedi rhyddhau 'Rumble' – un o'r caneuon mwyaf ffyrnig a maleisus a recordiwyd erioed! Er bod y trac wedi ei gwahardd mewn sawl ardal, trac offerynol yw 'Rumble'. Ysgrifennwyd hi wedi wedi iddo gael profiad ysbrydol yn ystod y cyfnod ble cafodd e lawdriniaeth ddifrifol. Nid oes modd gorbwylsieio ei ddylanwad ar gerddoriaeth ac yntau wedi wedi creu y *power chord* sydd yn un o sylfeini pob cerddoriaeth yn enwedig pync a roc trwm. Roedd y sain yn uchel, yn amrwd, y bas acwstig allan o diwn oherwydd twll oedd wedi ymddangos mewn gig ac roedd yr amps yn agos at fod yn rhacs er mwyn creu y *fuzz* allweddol i'r sain.

Mae ei ddylanwad yn bellgyrhaeddol gyda Bob Dylan, Bruce Springsteen, Neil Young, Steven Van Zandt, Jimmy Page, Pete Townsend, Kurt Cobain a myrdd o gerddorion wedi ei gydnabod fel gitarydd a cherddor sydd wedi llywio eu gyrfa. Mae'r ffilm ddogfen *Rumble: The Indians Who Rocked The World* yn cydnabod ei athrylith – ac mae'n hen bryd!

### Tân a brwmstan

Crefydd tân a brwmstan oedd crefydd Link Wray ac er gydag enw o fod yn wyllt, roedd yn osgoi cyffuriau, osgoi alcohol, yn llysieuwr oedd yn gwylio llawer gormod o deledu! Yn ôl ei gariad Angel, 'He was also the sweetest guy, and very spiritual.' Dywedodd wrthi unwaith, 'Every time I play a solo I think of God.'

Dyma eiriau 'Fire and Brimstone' oddi ar yr albwm a ryddhawyd ganddo ym 1971:

I had a dream last night
While I was layin' on my bed.
And the whole world was standing still
And the moon was turning red.

I saw a sign in the sky
'I have come to set you free.'
There's a light shinin' bright
Shinin' down, down on me.

Mae ei recordiau chwedlonol o ddechrau'r saithdegau, recordiwyd yn y Three Track Shack ar fferm ei frawd, yn rhoi darlun o ddyn sydd yn ystyried ei ffydd yn ddwys ac yn herio'r pwysau i gydymffurfio.

### Duw a'r rocyr

Holodd yr awdur Jimmy McDonough wrtho unwaith sut byddai Duw yn ymateb i rocyr mor wyllt â Link Wray. Yr oedd ei ymateb yn nodweddiadol o'r rebel: 'You can be wild, but not evil!' Ychwanegodd: 'I'm not strong at all, Jimmy. God's strong. God rules me, man, Satan don't rule me. Satan knows that he could turn me over in one second, 'cause I am a mean person – I mean, a nice person would never pull out a knife and cut nobody. Peter, one of Jesus's favorite disciples, man, he got a knife and he was goin' around cuttin', stabbin', he was a drinker and a wild fisherman, wild as hell. It took Jesus a lot to tame him down. There's an evil, and there's wild. And I was wild.'

**Dilwyn Roberts (Trefenter)**

## GAIR AM AIR

Un rhan hen o'r hyn a aeth
Yn aros – dyna hiraeth.

James Nicholas, 1928–2013

Perthyn i bob iaith rai geiriau na ellid yn llwyr a llawn eu cyfieithu i iaith arall. Yn y Gymraeg mae gennym y gair 'hiraeth'. Bydd y gyfres hon o fyfyrdodau yn ymdrin â nifer o'r geiriau rheini. Daw'r cyntaf o'r Ffrangeg: *dépaysement*. Golyga'n fras dyhead y sawl sydd oddi cartref am gysur ei gynefin cyfarwydd.

Gwyddai Hadad am *dépaysement*. Os oes Beibl wrth eich penelin, trowch os gwelwch yn dda i 1 Brenhinoedd 11:14-22. Roedd Hadad o linach frenhinol – tywysog Edom. Cyfnod trist yn hanes ei wlad oedd cyfnod ei blentyndod. Gyda chymorth Joab, rhoes Dafydd frenin ei fryd ar ddifa'r Edomiaid yn llwyr, a cheisiodd wneud hynny. Ond roedd un eithriad – y bachgen Hadad. Drwy gymorth gweision ei dad, ffodd i'r Aifft, a chafodd noddfa yno. Cafodd ei dderbyn fel tywysog – tŷ a thir, ymborth a dillad – yn ôl ei haeddiant brenhinol.

Llithrodd y blynyddoedd heibio. Tyfodd Hadad yn ddyn. Edmygid ef gan bawb, a pherchid ef yn llys y Pharo. Priododd chwaer Tahpenes y frenhines, a ganwyd iddynt fab, Genubath. Roedd popeth yn berffaith ddedwydd. Ni allai Hadad ddymuno dim byd gwell.

Ond fe ddigwyddodd rhywbeth a newidiodd y cwbl. Bu farw Dafydd, a Joab, yntau hefyd wedi marw. Anesmwythwyd Hadad yn fawr. Meddyliodd am Edom, ac yn sydyn iawn, daeth tynfa Edom yn drech na holl gysuron a goludoedd yr Aifft – yn gymaint felly nes iddo orfod mynd at Pharo i ofyn am ganiatâd dychwelyd i'w wlad ei hun. Roedd Pharo'n methu deall. Gofynnodd Pharo, 'Ond beth sy'n brin arnat gyda mi, dy fod am fynd adref?' Meddai Hadad, 'Dim, ond gad imi fynd.' (1 Brenhinoedd 11:22 BCN).

Dyna'r stori – stori *dépaysement*. Ond nid am yr hwnnw rwyf am sôn. Mae rhyw *dépaysement* arall, a *dépaysement* mwy. *Dépaysement* dwfn ac oesol pobl am Dduw. Ni ellir mo'i ddiffinio – dyma'r anesmwythyd sydd yn ein hysgogi ac yn ein haflonyddu. *Dépaysement* enaid am Dduw.

Pa beth yn stori Hadad o Edom, a hynny heb roi gormod o raff i'n dychymyg, sy'n cyfateb i'r cyflwr y cawn ein hunain ynddo heddiw? Onid

*parhad ar y dudalen nesaf*

# Barn Annibynnol

## Ody'n gweinidogion ni werth e?

Ry'n ni gyd yn cyfri'r ceinioge'r dyddie yma, mae am fod yn aeaf blin. Ac fe fuon ni drwy gyfnod y tu hwnt o anghyffredin yn ddiweddar ar gownt y pandemig. Erbyn hyn, mae angen i ni flaenoriaethu beth sy'n werth am arian. Ond mae yna rai pethau yr ydym ni'n fodlon talu amdanyn nhw o hyd, chi'n gwbod, y pethe hynny nad y'n nhw'n angenrheidiol i fyw; nid pethe fel bwyd, neu ddillad, neu gynhesu'n cartrefi. Beth y'n nhw? Beth sy'n bwysig i chi? Aelodaeth o'r gampfa (ie ... nid yn fy achos i) neu gymdeithas, ffôn symudol, tanysgrifiad i gylchgrawn yn wythnosol neu'n fisol (*Y Tyst*?), Netflix ... mae'n siŵr y byddai gan bob un ei restr.

### Gwerth Cristnogaeth

Gadewch i ni feddwl eto am y math o bethau yr ydyn ni'n talu amdanynt yn ychwanegol i'n hanghenion byw hanfodol ni. *Hold on* ... Beth am ein heglwysi? Ein capeli? Ein gweinidogion? Y peth yw, os ydyn ni'n mynd i'r cwrdd bob Sul ac yn clywed neges sy'n siarad â'n calonnau, ein heneidiau ac yn cymryd y neges honno adre gyda ni ac yn byw gyda'r neges honno am weddill yr wythnos, neu am weddill eich bywyd mewn rhai achosion, beth yw gwerth hynny? Neu hyd yn oed os ydych chi'n mynd er mwyn canu'r pen chi off i sŵn yr organ, neu os mai'r rheswm chi'n chi'n mynd yw er mwyn cael orig o dawelwch ac i fyfyrio ... beth bynnag yw'r rheswm neu resymau, y mae gwerth i bob un o'r pethau hyn. Ond sut fedrwch chi roi gwerth ar rywbeth na fedrwch chi ei weld? Yn yr oes hon ble mae pob dim yn cael ei arianeiddio, ble mae pris ar bob un dim ac felly nad oes gwir werth i unrhyw beth, sut fedrwn ni weld *gwerth* i'n Cristnogaeth ni? Beth yw gwerth ein Cristnogaeth ni?

### Gwerth pethau anweledig

Yn y byd materol (difater) hwn, y rheol yw, os na allwn ni eu gweld pethe, yna dydyn nhw ddim yn bodoli a does dim modd rhoi gwerth i bethau anweledig, dydyn nhw ddim yn bodoli. Ond ... ond ... rydym ni Gristnogion yn deall o'r gore beth yw credu mewn rhywbeth anweledig – dyna yw ffydd.

Mi wn fod yr un cwestiynau'n cael eu gofyn am gelfyddyd a'r celfyddydau. Yn wyneb y ffaith na fedrwch chi 'weld' y cynnyrch o ran disgyblaethau fel drama, cerddoriaeth, llenyddiaeth neu farddoniaeth, mae'r oes fasnachol hon yn gweld nad oes modd rhoi pris ar rain ac felly mae eu 'gwerth' yn chwythu ymaith fel gwawn ar y gwynt.

Ac fe wyddom mai tlotach fyddai'n bywydau ni heb y celfyddydau hefyd, ac yn sicr tlotach fyddai'n bywydau ni heb Grist. Felly, gadewch i fi gynnig y syniad hwn i chi, er na fedrwn ni roi union bris penodol ar y pethau 'anweledig' hyn, beth *am* edrych ar ein heglwysi fel sefydliadau yr ydym ni'n 'prynu' mewn iddyn nhw? Wedi'r cyfan, yn ein hachos ni fel Annibynwyr, yr eglwys yw'r aelodau a'r aelodau yw'r eglwys. Felly mae'r 'buck' yn stopio'n llythrennol gyda ni.

### Gwerth y bregeth

Reit 'te, gadewch i ni feddwl am y busnes mynd i'r capel bob Sul er mwyn gwrando ar bregeth (wnawn ni ddim sôn am y buddion ychwanegol ddaw o fod yn rhan o gymdeithas ehangach ac unrhyw bethau ychwanegol sy'n dod yn sgil hynny) fel trafodaeth ariannol yn unig? Ein bod ni'n cael rhywbeth am arian – wedi'r cyfan, mae rhywun wedi treulio amser yn gweithio i saernïo'r bregeth. Felly, beth dybiwn ni yw gwerth pregeth ar y Sul i ni? Faint dalwn ni i fynd i'r sinema, i fynd i weld arddangosfa, i fynd i'r theatr neu i gyngerdd er enghraifft? Ond 'nôl at y bregeth, meddyliwch am faint fyddech chi'n fodlon talu am un bregeth, yna cadwch y swm hwnnw yn eich pen. Sawl gwaith yr ewch chi i'r cwrdd mewn blwyddyn? Nawr, lluoswch y nifer wythnosau gyda'r swm y meddyliwch chi sy'n deg i'w roi am bregeth. Ydy hynny'n cyfateb â'ch cyfraniad blynyddol chi i'r eglwys? Gan gofio hefyd nad y bregeth yn unig a gewch chi am yr arian, fel y nodais, ond yr holl ddaw yn sgil y ffaith eich bod chi'n perthyn i eglwys Iesu Grist. Yn sydyn, mi fetia i, mae'r hyn yr ydym ni i gyd yn ei dalu'n edrych yn chwerthinllyd o fach. A falle ddylen ni gyd ystyried cynyddu ein cyfraniad ni at ein heglwysi o ryw fymryn er mwyn cyrraedd rhywfaint yn agosach at y 'gwerth go iawn' a gawn ni o fod yn aelodau.

Wy'n gwbod ein bod ni'n byw mewn amserau ansicr ac anodd ond yn bendant o edrych ar ein heglwysi a'n profiadau ni ohonynt a'r holl fudd a lles a gawn, fe ddylem ni oll sylweddoli fod ein haelodaeth ni o'n heglwysi'n well gwerth am arian nag unrhyw wasanaeth ffrydio ar y we, unrhyw aelodaeth o'r *gym*, unrhyw danysgrifiad i unrhyw gylchgrawn ffansi (ac ydw, mi ydw i'n dwlu ar gylchgronau ffansi) – y cyfan oll hyn gyda'i gilydd.

Y mae un peth yn sicr felly, y mae'ch gweinidog chi, neu pwy bynnag ddaw i roi pregeth yn eich pulpud ar y Sul, yn well gwerth am arian na Netflix. Ffact i chi!

**Elinor Wyn Reynolds**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## GAIR AM AIR – *parhad*

prawf ydyw o'r gred oesol mai i dragwyddoldeb y perthyn hanfod yr hyn ydyw? Dengys fod ein bywyd yn llawer fwy na dyrnaid o lwch, ac mai oddi wrth y Duw a'n creodd ni y daeth inni bob gweledigaeth fawr, pob gwirionedd, pob delfryd a phob prydferthwch. Yn syml, syml, fe olyga ein *dépaysement* am Dduw iddo ein creu ni ar gyfer rhywbeth mwy a gwell na'r bywyd sy'n ddarostyngedig i ddeddf pechod a marwolaeth. Bywyd – y bywyd gwir a'r bywyd llawn yw'r bywyd rydym yn crefu amdano: *dépaysement*.

*Dépaysement*, y mae'n reddf ynom, ac ni wna dim llai ein bodloni.

Nid byddaf lonydd nes dy gael:
Chwant f'enaid yw dy fynwes Di.

Morgan Llwyd, 1619–59


## Eglwysi Cynulleidfaol Dwyieithog Penybont a Threfgarn Owen Sir Benfro

Gyda'r cyhoeddiad fod ein gweinidog y Parchg Geoffrey Eynon yn ymddeol fis Gorffennaf nesaf, wedi 46 mlynedd yn yr ofalaeth, rydym yn awyddus i barhau gyda gweinidogaeth lawn amser.

Gyda'r dyhead hwn, rydym yn gwahodd unrhyw eglwys, neu grŵp o eglwysi yn y cyffiniau, sydd â diddordeb mewn ystyried ymuno â'r ofalaeth i gysylltu â ni.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â:

Mrs Haulwen Warlow
Ysgrifennydd yr Ofalaeth
01437 563306
haulwen.warlow@btinternet.com



## GWAHODD GWEINIDOG RHAN AMSER

**Eglwysi Annibynnol Glandwr, Cefnypant, Hebron, Nebo Efailwen, Llwynyrhwrdd Tegryn, Sir Benfro.**

Y mae'r eglwysi uchod yn gwahodd ceisiadau am weinidog rhan amser.

Am fanylion pellach cysyllter a:

Bethan Hinde
Garth, Y Glôg
SA36 0ED.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# PRYSURDEB SARON A NEBO

Cynhaliwyd noson 'crymbl mwyar duon ac afalau' yn Saron Creunant ar 5 Hydref er mwyn codi arian ar gyfer apêl Tashwedd (Movember) y gweinidog, Rhys. Llwyddwyd i godi dros £200 mewn un noson a diolchwn i bawb am eu haelioni. Y mae Rhys yn tyfu clamp o fwstásh yn ystod y mis. [*Edrychwn ymlaen at weld llun ohono yn fuan yn* Y Tyst. *Gol*.] Pwrpas y digwyddiad oedd codi ymwybyddiaeth bellach o gancr y ceilliau ac iechyd meddwl dynion.

Dathlwyd pen-blwydd un o'n haelodau sef Ann Tong, yn 85 hefyd!



## Diolchgarwch

Ar ddydd Sul 9 Hydref daeth yr eglwys ynghyd er mwyn dathlu'r cynhaeaf a rhoi diolch i'r crëwr am ei haelioni di-ben-draw. Addurnwyd y capel yn brydferth iawn fel y gwelwch yn y lluniau. Braint oedd casglu bwyd yn ystod y cwrdd ar gyfer Banc Bwyd Cwm Dulais. 'Digoner ninnau â daioni dy dŷ.' Y diwrnod canlynol daeth disgyblion o ysgol y Creunant ar ymweld â'r capel er mwyn dysgu am y capel a'r eglwys, Duw ac Iesu a phrif bwrpas dathliad y cynhaeaf inni. Hyfrydwch mawr inni fel eglwys oedd cael croesawu'r plant annwyl i'r cysegr fel hyn.





## Nebo Felindre

Hefyd yn Nebo Felindre fe gynhaliwyd oedfa o ddiolchgarwch ar 16 Hydref. Cafodd pawb oedd yn bresennol yn y gwasanaeth fendith aruthrol. Un o'r rhesymau am hynny oedd fod y capel wedi ei harddu ag addurniadau tymhorol. Diolch o galon i Mrs Bell a' r aelodau am eu gwaith paratoi arbennig.

**William Rhys Locke**

# Capel dan ei sang mewn cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch Hope-Seilo ar fore Sul 16 Hydref. Gyda'r capel dang ei sang ac wedi'i addurno roedd hi'n wledd i'r glust ac i'r llygad. Cawsom gyfraniad dramatig gwych gan blant yr ysgol Sul yn seiliedig ar ddameg y deg gwahanglwyf, a rhai o'r plant yn gwisgo dilledyn llawn smotiau coch. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o ddweud diolch drwy'r ddameg.

Tro criw o aelodau oedd hi wedyn i gyflwyno neges gyfoes ar lafar, ar gân a thrwy lun ar y sgrin, yn cynnwys cerddi o waith Meirion Evans a Hannah Roberts a chan Delyth Mai Nicholas ac Eric Jones (Gweddi Wcráin). Cyfeiriwyd at yr angen i ofalu am fyd Duw ac adnoddau'n daear. Er ein bod ni'n gresynu am y ffaith fod angen banciau bwyd, rhaid diolch i'r gwirfoddolwyr sy'n eu trefnu a diolch i bawb sy'n estyn cymorth i rai mewn angen ar draws y byd. Rydym yn ffodus o gael gweld a gwrando ar y criw talentog hwn yn rheolaidd.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau hael i'r Banc Bwyd, gan gynnwys rhoddion addas ar gyfer plant bach gan y Clwb Babanod.

**Heledd Clarke**



*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*